THE GREAT BRITISH WEATHER

# CANLLAW GWYLIO CYMYLAU

BBC one

# Croeso



Alexander Armstrong



Carol Kirkwood



Chris Hollins

**Yn y wlad hon rydym i gyd yn gyfarwydd iawn â chymylau, felly mae Tîm Tywydd Gwych Prydain wedi ffurfio'r canllaw hwn. Gobeithiwn y bydd yn eich helpu i ddynodi'r gwahanol wrthrychau gwlanog (a'r rhai sydd ddim mor wlanog) yn yr awyr.**

Hyd yn oed os nad ydych wedi ceisio gwylio cymylau o'r blaen, dechreuwch â'n llawlyfr cymylau sy'n hawdd i'w ddefnyddio. Unwaith y byddwch yn teimlo eich bod yn gwybod y gwahaniaeth rhwng Cwmwlws a Cwmwlonimbws, yna gallwch ddefnyddio'r cerdyn sgorio gwylio cymylau sy'n graddio'r deg cwmwl uchaf i'w gwylio. Allwch chi weld pob un o'r deg?

Mae rhagor o bethau i'w darganfod am y tywydd ar bbc.co.uk/greatbritishweather gan gynnwys fideos "Sut i" ar adeiladu medrydd glaw a deall terminoleg tywydd.

Mae canllaw diogelwch hefyd ar gyfer cymryd ffotograffau o'r tywydd (gan fwyaf yn synnwyr cyffredin wrth gwrs), ond mae'n werth edrych arno.

Gallwch ddod yn rhan o'r cynhyrchu hefyd drwy yrru eich lluniau gorau i greatbritishweather@bbc.co.uk a gallant gael eu darlledu'n fyw ar y sioe BBC One, yn ein galerïau Tywydd BBC arbennig neu ar ragolygon tywydd byw.

A pheidiwch ag anghofio ymuno yn y sgwrs tywydd @BBCbritweather a #BBCgbw o nawr tan 5 Awst 2011.

**Hwyl i chi'n gwylio cymylau!**



# Cyflwyniad

**Mae cymylau wedi'u gwneud o ddŵr – dafnau bach iawn o ddŵr yn achos y cymylau isel a chrisialau rhew yn y cymylau uchel (yn aml mae cymylau lefel-ganolig yn cynnwys cymysgedd o'r ddau).**

Mae deg math sylfaenol o gwmwl ac maent yn cael eu grwpio yn ôl y ffordd maent yn edrych – p'un a ydynt wedi'u gwneud o dalpiau unigol, neu haenau neu linellau – a pha mor uchel ydynt – boed nhw'n gymylau isel, lefel-ganolig neu uchel. Mae'r deg math yn cael eu rhannu i lawer o rywogaethau ac amrywiaethau eraill.

Dim ond ychydig o'r llawer o wahanol fathau o gwmwl a gynhwysir yn y canllaw hwn – rhai ohonynt yn gyffredin ac yn hawdd i'w gweld, rhai eraill yn brin. Nid ydych byth yn gwybod pa bryd y bydd ffurfiant diddorol yn ymddangos, felly mae'n rhaid cadw golwg bob amser ar yr hyn sy'n digwydd uwch ben.

bbc.co.uk/greatbritishweather

# 1. Cwmwlws


Cwmwlws


Cwmwlws – Inverness

## Beth i chwilio amdano

Cymylau Cwmwlws yw'r pyffiau gwlân cotwm, â gwaelodion gwastad a thopiau fel blodfresychen, sy'n symud yn araf ar draws yr awyr ar ddiwrnod heulog. Fel arfer maent yn ffurfio ychydig o oriau ar ôl toriad gwawr ac yn tueddu i wasgaru cyn y machlud. Maent yn ffurfio ar golofnau anweladwy o aer (a elwir yn thermalau) sy'n codi o'r ddaear wrth iddo gael ei gynhesu gan yr Haul.

Nid yw'r rhan fwyaf o ffurfiau o Gwmwlws yn cynhyrchu unrhyw law nac eira, ac felly adnabyddir nhw fel cymylau tywydd braf. Pan fydd Cwmwlws yn rhaflog ar ei ymylon wrth iddo dorri, ar ôl cyrraedd oed mawr oddeutu 15 munud, gelwir ef yn Cwmwlws fractus.


## Beth maent yn ei olygu i ni

Nid yw'r Cwmwlws humilis llai byth yn cynhyrchu glaw nac eira, ond gall cymylau Cwmwlws mawr gynhyrchu cawodydd ysgafn i gymedrol. Pan fydd Cwmwlws yn cronni drwy'r bore maent yn rhybudd o gawodydd trwm erbyn y prynhawn: *'in the morning mountains, in the afternoon fountains'* meddai'r dywediad Saesneg.


Cwmwlws humilis

## Ffeithiau allweddol

Petaech yn ychwanegu'r holl ddafnau sydd mewn cwmwl Cwmwlws maint canolig at ei gilydd, byddant yn pwyso'r un faint ag 80 o eliffantod.




**PWYNTIAU CYMYLAU**

(gan eu bod yn hawdd i'w hadnabod)

# 2. Stratocwmwlws



Stratocwmwlws – Culbin



Stratocwmwlws

## Beth i chwilio amdano

Dyma'r math mwyaf cyffredin o gwmwl yn y DU, yn ogystal â llawer o rannau eraill o'r byd, mae'r Stratocwmwlws yn haen neu glwt isel o gwmwl sydd â gwaelod talpiog. Mae'r clytiau un ai wedi cysylltu gyda'i gilydd, neu gyda bylchau rhyngddynt. Pan fydd yr awyr yn gwbl gymylog gyda sail cwmwl sy'n ymddangos yn isel a thonau'r cwmwl yn amrywio o wyn i lwyd tywyllach, gallwch fod yn siŵr eich bod yn edrych ar Stratocwmwlws.

## Beth maent yn ei olygu i ni

Ar brydiau mae cymylau Stratocwmwlws yn cynhyrchu glaw neu eira, ond fel arfer mae'n weddol ysgafn. Eu prif effaith yw rhwystro'r heulwen yr ydym mor hoff ohono. Yn aml yn y DU, gall cymylau Cwmwlws ddod yn fwy a mwy helaeth drwy'r bore, gan ledaenu ac ymuno gyda'i gilydd i greu haen Stratocwmwlws sy'n gorchuddio'r awyr.

**"Fy hoff gwmwl yw'r cwmwlws gan ei fod yn golygu fel arfer y gallwn ddisgwyl tywydd da. Mae'r cymylau gwlanog gwyn hynny sydd mewn awyr las ar ddiwrnod o haf yn olygfa sy'n anodd ei churo."**

Carol Kirkwood

## Ffeithiau allweddol

Ar brydiau gallwch weld pelydrau o heulwen yn disgleirio i lawr drwy doriadau mewn cwmwl Stratocwmwlws. Gelwir y rhain yn 'belydrau cyfnosol'.

30

**PWYNTIAU CYMYLAU**

(gan eu bod mor gyffredin)

# 3. Cwmwlonimbws



Cwmwlonimbws



Cwmwlonimbws

**Beth i chwilio amdano**

Yn cael ei ddisgrifio'n aml fel Brenin y Cymylau, y Cwmwlonimbws yw pwerdy anhygoel yr atmosffer. Gall y cwmwl storm anferth hwn ymgyrraedd dros 10 milltir i'r awyr, yn aml yn lledaenu yn ei rannau uchaf i ffurfio canopi enfawr o grisialau rhew sy'n gallu gwneud iddo edrych fel eingion gof.

Dim ond wrth edrych arno o lawer i filltiroedd i ffwrdd y gellir gweld y ffurf eingion. Uwch eich pen, mae'n edrych fel sylfaen cwmwl tywyll iawn, sy'n aml yn garpiog ac yn ymestyn dros y rhan fwyaf o'r awyr.

**Beth maent yn ei olygu i ni**

Cwmwlonimbws yw cymylau storm. Maent yn cynhyrchu glaw trwm, eira neu genllysg, ac ar brydiau maent hefyd yn arwain at fellt a tharanau. Yn wahanol i gymylau eraill sy'n cynnwys glaw, mae'r 'flanced wlyb' dywyll, ddinodwedd o'r enw Nimbostratus sy'n cynhyrchu glaw maith a pharhaus, mae'r Cwmwlonimbws yn gollwng ei faich glaw yn ddramatig a sydyn.

**Ffeithiau allweddol**

Mae peilotiaid awyren yn gofalu i osgoi hedfan drwy'r angenfilod hyn gan fod y drafftiau pwerus sy'n mynd i fyny ac i lawr tu mewn iddynt yn gallu bod yn ddigon cryf i fflipio awyren wyneb i waered.




**PWYNTIAU CYMYLAU**

(yn enwedig os ydych yn gweld ei ffurf eingion o bell)

"Hedfanais drwy gymylau ar farcut ar gyfer y gyfres. Roedd yn brofiad dychrynllyd a chynhyrfus. Roedd yr awyr mor las a'r cymylau'n glaer wyn. Yn syml nid ydych yn gwerthfawrogi maint enfawr cynhenid cwmwl o'r ddaear."

Carol Kirkwood

# 4. Altocwmwlws


Altocwmwlws



Altocwmwlws

**Beth i chwilio amdano**
Mae'r cwmwl lefel-ganolig hwn ar ffurf haenau neu glytiau o glympiau unigol neu rolau o gwmwl, y'i gelwir yn 'gymylau bach'. Os ydych yn gweld haen o gwmwl sy'n edrych fel ei fod wedi'i wneud o lawer o beli gwlân cotwm arferol, efallai mai Altocwmwlws yw.

Cwmwl tebyg, ond un sy'n fwy prin, yw'r Cirrocumulus, sy'n uwch. Mae hwn hefyd yn haen neu'n glwt sydd wedi'i ffurfio o gymylau bach ond maent yn ymddangos lawer llai na'r rhai Altocwmwlws. I wahaniaethu rhwng y ddau, rhaid i chi ddal eich bys i fyny ar hyd braich tuag at y cwmwl sy'n union uwch eich pen. Os yw'r cymylau bach yn llai na lled eich bys, Cirrocumulus yw'r cwmwl; os ydynt yn fwy llydan, mae'n debygol mai Altocwmwlws yw.

**Beth maent yn ei olygu i ni**
Efallai na fydd y glaw a'r eira o Altocwmwlws yn tueddu i gyrraedd lefel y ddaear, ond i wylwyr cymylau brwd, gall y cymylau hyn fod yn arwyddion cynnar o stormydd sydd ar y ffordd. Os oes gan y cymylau bach dopiau talpiog iawn, mae'n awgrymu bod yr atmosffer ar y lefel hwnnw'n ansefydlog. Mae hyn yn golygu bod unrhyw gymylau Cwmwlws sy'n adeiladu o'r gwaelod i fyny yn debygol o dyfu i fod yn gymylau storm Cwmwlonimbws a fydd yn dod â chawodydd trwm yn y prynhawn.

**Ffeithiau allweddol**
Ar brydiau mae cymylau Altocwmwlws yn cynhyrchu glaw neu eira ond anaml y bydd yn cyrraedd y ddaear, fel arfer mae'n sychu wrth iddo ddisgyn. Mae hyn yn creu olion islaw iddynt sy'n gwneud i'r cymylau bach edrych fel sglefren fôr.




**PWYNTIAU CYMYLAU**
(yn enwedig os ydynt wedi'u trefnu mewn haen drefnus brydferth, fel blanced gwiltiog)

# 5. Cymylau haen



Altostratus



Stratus

## Beth i chwilio amdano

Yn gyffredinol, cymylau haen yw'r rhai mwyaf diflas yr olwg o'r holl fathau o gymylau. Heb amrywiaeth mewn tôn o un rhan i'r llall, dim ond awyr fflat, cymylog ydynt.

Mae cymylau haen yn ffurfio ar y tair lefel o gymylau. Stratus a elwir y rhai isel, a gallant fod i lawr at lefel y ddaear, pan y cânt eu galw'n niwl neu darth. Yn aml maent yn cau'r Haul i ffwrdd yn gyfan gwbl. Gelwir cymylau haen lefel-ganolig yn Altostratus, ac yn aml maent yn gwneud i'r Haul edrych fel petai'n ymddangos drwy wydr aneglur. Gelwir y cymylau haen uchel yn Cirrostratus, sy'n cynnwys crisialau rhew yn hytrach na dafnau dŵr.

## Beth maent yn ei olygu i ni

Gall Altostratus gynhyrchu glaw neu eira ysgafn i ganolig, ond y bedwaredd haen o gymylau sy'n cynhyrchu'r mwyaf o ddyddodiad yw'r Nimbostratus. Mae'r blanced drwchus hon o gymylau yn aml yn ymestyn trwy'r tair lefel gyfan ac mae hi'n bwrw a bwrw.

## Ffeithiau allweddol

Mae gan gymylau Stratus seiliau unrhyw le rhwng y ddaear i 1,500 tr. Ceir yr Altostratus ar 6,500-16,500 tr. Mae seiliau'r Cirrostratus ar 16,500-30,000 tr., tra gall y Nimbostratus fod dros 10,000 tr. o ddyfnder.




PWYNTIAU CYMYLAU

# 6. Cirrus



Cirrus – Hampstead Heath



Cirrus

## Beth i chwilio amdano

Yr harddaf o'r prif fathau o gymylau, mae cymylau Cirrus fel ôl brws dyfrlliw ar draws y glas. Yn cynnwys crisialau rhew yn rhaeadru drwy'r uwch atmosffer, maent yn dryloyw yn gyffredinol. Wrth i'r crisialau rhew ddisgyn i lawr trwy wahanol rannau o'r atmosffer, maent yn pasio drwy wyntoedd cyflymach ac arafach ac aer sychach a gwlypach, sy'n rhoi i'r cwmwl ei donnau nodedig, a elwir yn Saesneg yn 'fallstreaks'.

## Beth maent yn ei olygu i ni

Nid yw crisialau rhew'r cymylau Cirrus sy'n disgyn byth yn cyrraedd y ddaear, ond yn tueddu'n hytrach i anweddu ar y ffordd i lawr, Os gwelir nhw'n ymuno â'i gilydd ac yn tewychu i haen gwmwl uchel Cirrostratus, gall hyn fod yn arwydd cynnar o newid yn y tywydd a fydd yn arwain at law cyson. Heblaw am hynny, maent yn edrych yn hardd.

"Roedd bod i fyny yn y cymylau'n anhygoel. Ni fedrwn i flasu dim – efallai mai ofn oedd yn gyfrifol am hynny – ond wrth feddwl amdano nawr, roedd yr arogl rhywbeth tebyg i'r adeg pan rydych yn agor rhewgell ac yn cael yr arogl 'oer/rhewllyd' hwnnw."
Carol Kirkwood



Cirrus – Bryste

**Ffeithiau allweddol**

Mae cymylau Cirrus wedi eu henwi ar ôl y Lladin am gudyn gwallt.




**PWYNTIAU CYMYLAU**

(yn enwedig os ydynt wedi eu trefnu mewn haen drefnus hardd, fel blanced gwiltiog)

# 7. Olion anwedd



Olion anwedd



Olion anwedd

**Beth i chwilio amdano**

Mae 'olion anwedd' yn llinellau o gymylau sy'n gallu ffurfio weithiau tu ôl i awyrennau ar uchder teithio'n esmwyth. Wedi ei ffurfio o anwedd (dŵr ar ffurf nwy) sy'n rhan o beipen wacáu'r awyren , go brin y gallai'r llinellau syth, glân hyn edrych yn fwy gwahanol i ffurfiau gwyllt, anystywallt cymylau naturiol. Dim ond pan fo'r aer ar uchder teithio'n esmwyth yn ddigon oer a gwlyb y maent yn ymddangos. Ar adegau eraill, ni welir unrhyw gwmwl tu ôl i'r awyren.

**Beth maent yn ei olygu i ni**

Mae olion anwedd yn cael effaith gynnil ar y tywydd a gawn. Yn sicr dyma'r ffurf fwyaf gweladwy o'n heffaith ar ein hatmosffer – llinellau cynnydd syth, yn rhannu a dyrannu'r awyr – marciau dyn ar yr hyn sydd, i'r mwyafrif ohonom, y lle gwyllt olaf i syllu arno.

**Ffeithiau allweddol**

Yn aml mae ein hatmosffer yn cynnwys haenau gwahanol o aer, felly nid yw'n anghyffredin gweld yr olion anwedd tu ôl i awyren yn troi ymlaen ac i ffwrdd fel ei bod yn codi neu'n disgyn.




**PWYNTIAU CYMYLAU**

(oherwydd eu bod mor gyffredin y dyddiau hyn)

# 8. Lenticularis


Lenticularis


Lenticularis


Lenticularis

**Beth i chwilio amdano**
Wedi ei enwi ar ôl y gair Lladin am gorbys, mae'r rhain yn ddisgiau o gymylau gydag ymylon llyfn, wedi'u lliflinio. Yn aml maent yn edrych fel UFOs. Mae cymylau Lenticularis yn ffurfio mewn amodau sefydlog pan fo gwyntoedd gwlyb yn gorfod codi dros dir uchel fel bryn neu gopa mynydd.

Er mai mewn rhanbarthau bryniog neu fynyddig y gwelir y cymylau lenticularis gan amlaf, gallant ymddangos dan y gwynt o fryniau mwyn, tonnog hyd yn oed, pan fo'r amodau'n iawn. Mae dafnau dŵr cymylau lenticularis yn ffurfio ar un pen i'r cwmwl ac yn rhuthro drwyddo gyda'r gwynt, ac yna'r diflannu unwaith eto tua cefn y cwmwl. Er bod y dafnau'n symud, mae'r cwmwl cyfan yn edrych yn llonydd yn y gwynt cyson ar lefel y cymylau.

**Beth maent yn ei olygu i ni**
Anaml iawn mae cymylau lenticularis yn cynhyrchu unrhyw law neu eira sy'n cyrraedd y ddaear.

**Ffeithiau allweddol**
Weithiau cânt eu galw'n 'lennies' yn Saesneg; gall y cymylau hyn ffurfio ar unrhyw un o'r tair lefel cymylau a gellir gweld rhai gogoneddus mewn cymylau lefel-ganolig – gelwir y rhain yn Altocwmwlws lenticularis.




PWYNTIAU CYMYLAU

# 9. Mamma



Mammatus – Pont Waterloo



Mammatus

### Beth i chwilio amdano

Gelwir y rhain hefyd yn mammatus, ac maent yn gydau sy'n hongian i lawr o ochr isa'r haen gymylau. Maent i'w gweld hawsaf pan fo'r Haul yn isel, ac yn disgleirio ar hyd sail yr haen gymylau, gan ddangos ffurfiau tebyg i bwrs buwch (daw'r gair Mamma o'r Lladin am bwrs buwch). Gellir eu gweld yn hongian o ochr isaf cymylau ar bob un o'r tair lefel o gymylau. Mae cymylau Mamma yn weddol brin felly rhaid i chi graffu amdanynt.

### Beth maent yn ei olygu i ni

Tuedda cymylau Mamma i ymddangos fel petaent ynghlwm i du ôl storm sydd ar y ffordd, ac felly fel rheol maent yn golygu fod y cawodydd trymion yn disgyn beth pellter i ffwrdd, neu fod y storm eisoes wedi pasio heibio.

### Ffeithiau allweddol

Diffinnir Mamma fel 'nodweddion ategol'. Mae'r rhai mwyaf dramatig yr olwg yn ffurfio ar ochr isa'r eingion anferth sydd wedi'u taenu ar ben cymylau storm Cwmwlonimbws.




PWYNTIAU CYMYLAU

"Gellwch barhau i wylio tra'r ydych dramor – gwelais mammatus yn yr UD. Mae'n edrych fel pwrs buwch, ac roedd yr haul sy'n machlud tu ôl iddo. Mae'n edrych yn drwm (aer sy'n disgyn yw) fel petai bron ar fin disgyn ar eich pen!"
Carol Kirkwood

# 10. Noctilucent


Noctilucent


Noctilucent

### Beth i chwilio amdano

Mae cymylau Noctilucent yn ffurfio mor uchel i fyny yn yr atmosffer – yn aml 50 milltir i fyny – fel eu bod llawer uwch na'r oddeutu 10-12 milltir y mae ein cymylau tywydd arferol yn ffurfio ynddo.

Mae'r cymylau rhyfedd hyn gyda golwg iasol, glaswyn, ac yn aml mae ganddynt grychion neu donnau ysgafn sy'n gallu ymestyn ar draws rhannau anferth o'r awyr. Golyga eu henw 'disgleirio yn y nos'. Gan eu bod mor uchel, maent yn parhau i ddal golau'r haul pan fo gweddill yr awyr yn dywyll.

Mae'r cymylau hyn yn brin, a dim ond yn yr haf maent yn ffurfio – fel arfer rhwng diwedd Mai a chanol Awst. Chwiliwch amdanynt pan fo'r awyr yn glir o gymylau isel, ac o fewn ychydig oriau o wawrio neu fachlud haul.

### Beth maent yn ei olygu i ni

Mae cymylau Noctilucent yn llawer iawn rhy uchel i gael unrhyw effaith uniongyrchol ar y tywydd ar y ddaear.

"Cyn i chi gychwyn allan i dynnu lluniau cymylau, gwnewch yn siŵr fod digon o fatri ar ôl yn eich camera. Rwyf wedi cael problem efo hyn yn y gorffennol! Os oes gennych un, rhowch fatri sbâr yn eich poced hefyd."
Carol Kirkwood

### Ffeithiau allweddol

Mae'r patrymau symudol yn ffurfiant y cymylau dirgel hyn yn cael ei ystyried fwyfwy fel arwyddion gwerthfawr o'n hinsawdd sy'n newid.

300
PWYNTIAU CYMYLAU

# Ewch ati i wylio!

**Defnyddiwch eich cerdyn sgorio defnyddiol i weld faint o'r cymylau yn ein canllaw y gellwch eu gweld yn yr wythnosau nesaf a gweld os ellwch chi gyrraedd ein cyfanswm sgôr o 1,000.**

Peidiwch ag anghofio syniadau defnyddiol Carol ynghylch gwylio cymylau pan ydych ar wyliau.

Hwyl i chi'n gwylio cymylau gan Dîm Tywydd Gwych Prydain.



## 1. Cwmwlws

**Uchder:** Isel: 1-5k tr

**Glawiad:**

**Sgôr prinder:** 60

**Dyddiad ei weld:**

**Sgôr cwmwl:**



## 2. Stratocwmwlws

**Uchder:** Isel: 1-4.5k tr

**Glawiad:**

**Sgôr prinder:** 30

**Dyddiad ei weld:**

**Sgôr cwmwl:**



## 3. Cwmwlonimbws

**Uchder:** Aml-lefel: 2-45k tr

**Glawiad:**

**Sgôr prinder:** 100

**Dyddiad ei weld:**

**Sgôr cwmwl:**



## 4. Altocwmwlws

**Uchder:** Lefel-ganolig: 6.5-20k tr

**Glawiad:**

**Sgôr prinder:** 70

**Dyddiad ei weld:**

**Sgôr cwmwl:**



## 5. Cymylau Haen

**Uchder:** Cyfan o'r 3 haen

**Glawiad:**

**Sgôr prinder:** 150

**Dyddiad ei weld:**

**Sgôr cwmwl:**



## 6. Cirrus

**Uchder:** Uchel: 20-40k tr

**Glawiad:**

**Sgôr prinder:** 60

**Dyddiad ei weld:**

**Sgôr cwmwl:**



## 7. Olion anwedd

**Uchder:** Uchel: 20-40k tr

**Glawiad:**

**Sgôr prinder:** 60

**Dyddiad ei weld:**

**Sgôr cwmwl:**



## 8. Lenticularis

**Uchder:** Isel: 1-5k tr

**Glawiad:**

**Sgôr prinder:** 125

**Dyddiad ei weld:**

**Sgôr cwmwl:**



## 9. Mamma

**Uchder:** Cyfan o'r 3 haen

**Glawiad:**

**Sgôr prinder:** 45

**Dyddiad ei weld:**

**Sgôr cwmwl:**



## 10. Noctilucent

**Uchder:** V.V. uchel: 30-50 milltir

**Glawiad:**

**Sgôr prinder:** 300

**Dyddiad ei weld:**

**Sgôr cwmwl:**

## Cyfanswm

THE GREAT BRITISH WEATHER

# CANLLAW GWYLIO CYMYLAU

bbc.co.uk/greatbritishweather

**Awdur**
Gavin Pretor-Pinney, awdur
*The Cloud Collector's Handbook*
a sylfaenydd The Cloud Appreciation Society.

**Ffotograffiaeth**
Page 3/12: Stratocwmwlws – Heather Reid
Page 10/13: Mamma – Shevaun Mendelsohn
Page 11/13: Noctilucent – George Kristiansen

**Dyluniad**
red-stone.com

Diolch yn fawr i Tywydd y BBC ac aelodau'r cyhoedd am y lluniau a gyfrannwyd. Diolch arbennig i Carol Kirkwood.

© BBC Learning 2011